ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD

CYNLLUNIO A DATBLYGU

RHEOLI DATBLYGIADAU

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**Mawrth 2024**
*(Fersiwn 3)*

# NODYN CANLLAW CODI TÂL AM GYNGOR CYN YMGEISIO YN ÔL DISGRESIWN

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn annog ac yn croesawu'r cyfle i roi cyngor cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Nid yw'n *orfodol* i chi ofyn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio, er y byddem yn ei argymell.

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau cynllunio, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gwasanaethau Cyn Ymgeisio) 2016. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu ymgeiswyr i baratoi cynigion derbyniol o ansawdd uchel, ac i gyflymu'r broses o ymgeisio.

Mae'r gwasanaeth statudol yn cynnwys y cyngor sylfaenol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarparu ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau neu brosiectau.

Mae'r gwasanaeth dewisol yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol y gall y Cyngor eu cynnig, megis cyfarfodydd, am ffi. Mae'r ffioedd ar gyfer y gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio ar wahân i'r ffioedd ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio.

Os ydych am ddefnyddio'r gwasanaeth statudol ac nad oes angen cyfarfod arnoch, dylech lawrlwytho a llenwi'r **ffurflen canllawiau statudol cyn ymgeisio** (pdf). Os ydych am ddefnyddio'r gwasanaeth yn ôl disgresiwn neu os nad yw'ch cynnig yn cyd-fynd â'r categorïau gwasanaeth statudol, dylech ddilyn y canllawiau gwasanaeth yn ôl disgresiwn yn y ddogfen hon.

Ein nod yw annog a hyrwyddo datblygiadau o ansawdd uchel a gwella effeithlonrwydd ein gwasanaeth. Bydd y Cyngor yn anelu at ddarparu gwasanaeth ymatebol a phroffesiynol a bydd yn anelu at ddarparu cyngor cyn ymgeisio a fydd yn lleihau ansicrwydd; cynorthwyo i brosesu ceisiadau yn gyflym lle ceisiwyd a gweithredwyd ar gyngor y Cyngor; gobeithio hwyluso canlyniadau derbyniol; a bod yn gost-effeithiol i bobl sy'n paratoi cais cynllunio neu'n ystyried cyflwyno cais cynllunio. Mae'r ffioedd hyn yn ychwanegol at y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio. Os gwnewch gais ar ôl cael cyngor y taloch amdano, bydd rhaid talu'r ffi cyflwyno cais llawn o hyd (h.y. ni roddir gostyngiad).

Os ydych am gael cyngor cyn ymgeisio ar gynigion 'mawr' a 'bach' (a ddiffinnir yn Atodiad 1), bydd yn rhaid i chi dalu ffi. Bydd ffioedd hefyd yn berthnasol ar gyfer gwiriadau cydymffurfio, trafodaeth ar newidiadau i gytundebau adran 106 neu amodau ac edrych ar hanesion cynllunio.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ddeall y ffordd orau o ofyn am gyngor. Nid yw'r un peth â gofyn a oes angen caniatâd cynllunio arnoch ar gyfer cynnig penodol (h.y. ymholiad am ddatblygiad a ganiateir). Mae hynny'n fath gwahanol o ymholiad ac mae gennym system swyddogion dyletswydd ar gyfer darparu cyngor anffurfiol o'r fath.

## BETH YW MANTEISION CEISIO CYNGOR CYN YMGEISIO (STATUDOL NEU ANSTATUDOL)?

Mae manteision sylweddol o ran ceisio cyngor cyn ymgeisio oherwydd:

- Mae'n rhoi cyfle i chi ddeall sut y bydd ein polisïau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill yn cael eu cymhwyso i'ch datblygiad.
- Gall nodi yn gynnar lle mae angen mewnbwn arbenigol, er enghraifft mewn perthynas ag adeiladau

rhestredig, coed, tirwedd, sŵn, llifogydd, trafnidiaeth, tir halogedig, ecoleg neu archaeoleg.

- Bydd yn eich cynorthwyo i baratoi cynigion i'w cyflwyno'n ffurfiol a ddylai gael eu hystyried yn fwy cadarnhaol ar yr amod eich bod wedi ystyried ein cyngor yn llawn, a chyflymu'r amser a gymerir i ddod i benderfyniad.
- Gall arwain at ostyngiad yn yr amser a dreulir gan eich cynghorwyr proffesiynol eich hun wrth lunio cynigion.
- Efallai y bydd yn nodi bod cynnig yn gwbl annerbyniol, gan arbed cost i chi o gyflwyno cais ffurfiol.
- Bydd yn eich helpu i nodi a deall yr hyn sydd ei angen arnoch er mwyn i'ch cais gael ei ddilysu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Yn ogystal â'r canllawiau cyngor cyn ymgeisio a amlinellir yn y nodyn hwn, mae cyngor a gwybodaeth gyffredinol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor a Chanllawiau Cynllunio Atodol, ar gael ar ein gwefan yn

https://www.newport.gov.uk/cy/Planning-Housing/Planning/Planning-policy/Planning-policy.aspx

Ac ar wefan y Porth Cynllunio yn www.planningportal.gov.uk

**PA FATERION FYDD YN CAEL SYLW WRTH YMDRIN Â CHEISIADAU CYN YMGEISIO?**

Mae'r materion a allai fod yn destun cyngor cyn ymgeisio yn cynnwys:

- Hanes cynllunio'r safle:
- Dynodiadau statudol y safle, megis ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, coed gwarchodedig a statws cadwraeth natur;
- Polisïau cynllunio perthnasol a ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r safle/datblygiad; Cyngor ar lenwi'r ffurflenni a'r cynlluniau angenrheidiol a sefydlu'r ffi gywir;
- Ystyried yr wybodaeth a'r dogfennau ategol angenrheidiol ac sy'n benodol i'r safle, gan gynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad, Asesiadau Canlyniadau Llifogydd, Asesiadau Trafnidiaeth, Asesiadau Effaith ar Fanwerthu, ac ati;
- Cyngor ynghylch y weithdrefn, y trefniadau ymgynghori a'r amserlen amcangyfrifedig ar gyfer prosesu'r cais a chysylltiadau a ffynonellau gwybodaeth defnyddiol lle y bo hynny'n berthnasol;
- Unrhyw ofynion ar gyfer cyfraniadau datblygwyr i'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi'r datblygiad arfaethedig, er enghraifft tai fforddiadwy, mannau agored, trafnidiaeth gynaliadwy;
- Unrhyw safonau technegol perthnasol sy'n berthnasol i'r datblygiad (e.e. nifer a meintiau'r lleoedd parcio, ac ati);
- Sylwadau anffurfiol, a heb ragfarn, ar gynnwys, paratoi a chyflwyno cais sy'n debygol o fodloni polisïau cynllunio'r Cyngor;
- Rhinweddau cynigion drafft (e.e. addasrwydd y dyluniad), a darparu copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol, yn amodol ar daliadau safonol y Cyngor am ddogfennau.

**GWYBODAETH Y BYDD EI HANGEN ARNOM GENNYCH CHI - 'GWYBODAETH HANFODOL'**

**Rhaid cyflwyno pob cais am gyngor cyn ymgeisio yn ysgrifenedig, drwy lythyr neu drwy e-bost, a rhaid i bob ymholiad cyn ymgeisio gynnwys yr wybodaeth a nodir isod o leiaf.**

- Manylion ysgrifenedig y cyfeiriad a'r cynnig
- Disgrifiad o natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r tir a'r adeiladau
- Cynllun o leoliad y safle, gyda'r safle wedi'i farcio'n glir (i raddfa gydnabyddedig, gan ddangos cyfeiriad y gogledd)
- Lluniadau sy'n cynnwys manylion y cynnig (i raddfa gydnabyddedig)
- Eich manylion cyswllt, gan gynnwys eich rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
- Cadarnhad o ddefnydd cyfredol neu olaf y safle
- Rhestr o faterion allweddol yr ydych yn eu hystyried yn berthnasol neu a allai fod angen ymateb penodol
- Y ffi briodol (gweler y rhestr o ffïoedd yn Atodiad 1) - ni roddir unrhyw gyngor ac ni wneir unrhyw ymweliadau safle nes bod y ffi lawn wedi'i thalu

**GWYBODAETH YCHWANEGOL A ALLAI HELPU YMHOLIADAU - 'GWYBODAETH SAFLE-BENODOL'**

- Ffotograffau o'r safle a'r cyffiniau, gan dalu sylw penodol i unrhyw dai gerllaw neu unrhyw ddatblygiad arall y gallai eich cynnig effeithio arno
- Mynediad a threfniadau parcio
- Asesiadau rhagarweiniol mewn perthynas ag ecoleg, tirwedd, halogiad, llifogydd, manwerthu, sŵn a thrafnidiaeth yn dibynnu ar leoliad, natur a chymhlethdod y datblygiad. Rydym hefyd yn argymell cyflwyno datganiad dylunio a mynediad cychwynnol ar gyfer sylwadau.

* *Fe'ch cynghorir gan y swyddog achos os ystyrir bod gwybodaeth safle-benodol yn angenrheidiol er mwyn gallu rhoi ymateb.*

**YR HYN A WNAWN**

Pan fyddwn yn derbyn eich ymholiad cyntaf, byddwn yn gwirio'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni ac yn gofyn am ragor o wybodaeth os oes angen. Byddwn hefyd yn sicrhau eich bod wedi talu'r ffi gywir. Os nad ydych wedi gwneud hynny, neu os ydym o'r farn bod angen rhagor o wybodaeth i'n helpu i roi cyngor da a manwl i chi cyn ymgeisio, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi na fyddwn yn parhau â'ch ymholiad nes eich bod wedi talu'r ffi gywir a/neu roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i ni. Fel arall, byddwn yn bwrw ymlaen i ddarparu ymateb ond yn eich cynghori ynghylch cyfyngiadau ein cyngor yn ein hymateb ysgrifenedig neu mewn cyfarfod.

Os yw eich cais yn ymwneud â datblygiad lle na ellir diffinio categori ffïoedd yn glir yn unol â'r amserlen hon, mater i'r Rheolwr Tîm Ardal fydd cadarnhau'r ffi sy'n daladwy gan ystyried natur yr ymholiad, adnoddau swyddogion sy'n debygol o fod yn ofynnol iddynt ymateb iddo a'r ffïoedd a godir ar gyfer ceisiadau tebyg. Fe'ch hysbysir o'r ffi ofynnol. Os ydych am drafod y mater hwn, cewch eich cyfeirio at y Rheolwr Tîm Ardal.

Fodd bynnag, sylwer bod darparu cyngor cyn ymgeisio yn ychwanegol at y gwasanaeth statudol a nodir yn Rheoliadau 2016 yn wasanaeth yn ôl disgresiwn a gall y gwasanaeth wrthod darparu cyngor cyn ymgeisio lle nad yw'r ffi ofynnol wedi'i thalu.

Unwaith y bydd y ffi gywir wedi'i thalu a gwybodaeth hanfodol wedi'i darparu, bydd eich ymholiad yn cael ei ddyrannu i swyddog priodol.

Anfonir cydnabyddiaeth o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl derbyn ymholiad dilys a bydd yn cynnwys derbynneb am y ffi a chadarnhad o'r swyddog sy'n ymdrin â'r cais. Byddwn yn gwneud ein gorau i ymateb o fewn 56 diwrnod. Mewn achosion arbennig o gymhleth, efallai y bydd angen rhagor o amser a byddwn yn eich hysbysu pryd y gallwch ddisgwyl ateb.

Os byddwch yn rhoi cyfeiriad e-bost i ni, dyma fydd ein prif bwynt cyswllt. Os derbynnir eich ymholiad yn Saesneg, byddwn yn ei derbyn fel eich dewis iaith at ddibenion cyfathrebu oni bai eich bod yn datgan yn benodol fel arall. Bydd yr ateb ysgrifenedig sy'n nodi ein cyngor yn cynnwys y gwasanaeth ar gyfer y tâl safonol. Codir ffi arall ar gyfer ymholiadau pellach.

Pan geisir cyfarfod, byddwn yn trefnu dyddiad addas yn dibynnu ar gymhlethdod y cynllun a faint o waith y bydd ei angen ymlaen llaw. Gall hyn gynnwys unrhyw amser sy'n angenrheidiol i gael barn gychwynnol partïon eraill â diddordeb, megis y swyddog tirwedd, swyddog polisi cynllunio ac ati. Fodd bynnag, ni chynhelir unrhyw gyfarfodydd heb olwg ymlaen llaw ar yr wybodaeth hanfodol a safle-benodol sy'n ofynnol.**

Bydd presenoldeb swyddogion eraill yn y cyfarfod, gan gynnwys cynghorwyr arbenigol, yn ôl ein disgresiwn ac yn seiliedig ar argaeledd ac adnoddau adrannau perthnasol y Cyngor, ond ni fydd angen talu ffïoedd ychwanegol.

Os bydd angen cyfarfod pellach, sefydlir cwmpas cyfarfod o'r fath ymlaen llaw ynghyd â'r ffi berthnasol y mae'n rhaid ei derbyn ynghyd ag unrhyw ddogfen berthnasol cyn y cyfarfod dilynol.

Cynhelir unrhyw gyfarfod, fel arfer, yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd. Gall y Rheolwr Ardal amrywio hyn fel eithriad i ganiatáu cais am gyfarfod ar y safle neu y tu allan i'r swyddfeydd Dinesig. Os felly, gellir addasu'r ffi i adlewyrchu'r amser a'r gost a dreulir yn teithio.

Mae gan y Cyngor yr hawl i wrthod cais am gyngor cyn ymgeisio lle nad yw'n cael ei ystyried yn briodol neu'n angenrheidiol.
** *Gall y swyddog achos ddefnyddio ei ddisgresiwn os yw'n ystyried ei fod yn briodol a dechrau ystyried eich ymholiad a gwneud trefniadau ar gyfer unrhyw gyfarfodydd angenrheidiol cyn i'r wybodaeth 'safle-benodol' gael ei derbyn. Ni fydd hyn yn berthnasol os yw'r awdurdod yn aros i dderbyn "gwybodaeth hanfodol" ac eithriad bydd hyn ac nid y norm.*

**YMWELIADAU SAFLE**

Mae ymweliadau safle yn ôl disgresiwn y swyddog achos.

**BETH MAE'R COSTAU'N EI GYNNWYS**

Mae'r ffïoedd hyn yn cynnwys costau adnoddau gweinyddol a swyddogion a'r amser a dreulir wrth wneud gwaith ymchwil, asesu, wrth fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, ac wrth lunio a gwirio ymateb ysgrifenedig.

Rhaid i unrhyw geisiadau am gyngor ysgrifenedig gynnwys y ffi berthnasol, fel arall ni ellir darparu cyngor. Mae gan y Cyngor yr hawl i benderfynu ar y ffi. Os bydd unrhyw anghydfodau, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Bennaeth Adfywio a Datblygiad Economaidd y Cyngor a fydd yn cymrodeddu. Oni thelir y ffi briodol o fewn 15 niwrnod gwaith ar ôl anfon nodyn atgoffa, ni roddir ymateb.

***Sylwer:***
Mae ein gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio yn cael ei gynnig i ddatblygwyr ac ymgeiswyr unigol, gan gynnwys deiliaid tai. Yn y naill achos, dylech ystyried rhai pwyntiau cyffredinol cyn cysylltu â ni:

- Ceisiwch gysylltu â ni cyn gynted â phosib ar ôl i'ch project gychwyn
- Gwnewch rywfaint o ymchwil cychwynnol, gan gynnwys edrych ar ein nodiadau ar sut i gyflwyno cais dilys
- Ceisiwch farn pobl y gallai eich cynigion effeithio arnynt
- Cofiwch, po fwyaf o wybodaeth a roddwch i ni, y mwyaf cywir a defnyddiol fydd ein hymateb - dim ond cyngor amhendant y gallwn ei roi ar gynigion amhendant. Ffactor allweddol yn llwyddiant y gwasanaeth hwn fydd yr wybodaeth a roddwch i ni ymlaen llaw – nodir hon yn fanylach yn y dogfennau y sonnir amdanynt uchod, **ac**
- Ar faterion cymhleth, byddwch yn barod i geisio help proffesiynol preifat – nid bwriad ein gwasanaeth yw disodli ymgynghorwyr proffesiynol

Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i roi'r cyngor gorau posib i chi yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch i ni a'r wybodaeth sydd ar gael i ni. Weithiau, gall gwybodaeth ddod i'r amlwg yn dilyn trafodaethau cychwynnol cyn ymgeisio sy'n newid barn swyddog achos am gynllun a bydd cywirdeb yr wybodaeth a roddwch yn effeithio ar hyn mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae angen i chi fod yn ymwybodol nad yw unrhyw gyngor a roddir gan swyddogion y Cyngor ar gyfer ymholiadau cyn ymgeisio yn gyfystyr â phenderfyniad ffurfiol gan y Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhoddir unrhyw safbwynt neu farn yn ddidwyll, a hyd eithaf ein gallu, ond heb ragfarnu i ystyriaeth ffurfiol unrhyw gais cynllunio.

Dim ond ar ôl i ni ymgynghori â phobl leol, ymgynghoreion statudol ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb, y gellir gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw gais ffurfiol am ganiatâd cynllunio. Bydd yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cynllunio neu dan bwerau a ddirprwywyd i'r Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd ac yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael bryd hynny.

Dylech felly fod yn ymwybodol na all swyddogion warantu'r penderfyniad ffurfiol terfynol a wneir ar eich cais(au). Fodd bynnag, bydd unrhyw gyngor cyn ymgeisio a ddarparwyd yn cael ei ystyried yn ofalus wrth ddod i benderfyniad neu argymhelliad ar gais; yn amodol ar yr amod y gall amgylchiadau a gwybodaeth newid neu ddod i'r amlwg a allai newid y sefyllfa honno ac a ydych wedi gwrando ar gyngor o'r fath ai peidio.

Sylwer, mewn achosion lle mae oedi cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ar ôl derbyn cyngor, bydd y gwerth a roddir i gyngor cyn ymgeisio yn lleihau dros amser, a gall cyngor newydd y llywodraeth neu bolisïau cynllunio newydd ei ddisodli.

***Ni chaiff ffïoedd eu had-dalu***

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Er na fydd manylion ymholiadau cyn ymgeisio ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ni fydd trafodaethau a chyngor perthnasol yn cael eu datgelu i drydydd partïon fel mater o drefn, mae darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn effeithio ar y Cyngor fel awdurdod cyhoeddus ac felly dylech fod yn ymwybodol y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddatgelu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor os bydd trydydd parti yn gofyn amdani fel rhan o gais Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Os ydych o'r farn bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn fasnachol sensitif neu y dylai fod yn gyfrinachol am resymau eraill, ac felly nid yw'n ddarostyngedig i ofynion datgelu'r Ddeddf/Rheoliadau, dylech gynnwys datganiad i'r perwyl hwn a'r rhesymau drosto fel rhan o'ch cyflwyniadau ysgrifenedig. Bydd y Cyngor yn ymdrechu, gan ystyried statud, i sicrhau cyfrinachedd ond rhaid marcio unrhyw geisiadau o'r fath yn gyfrinachol a rhaid datgan yn glir faterion amlwg o sensitifrwydd masnachol neu resymau arwyddocaol eraill pam na ellir cyhoeddi'r wybodaeth hon. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am faterion o'r fath y canfyddir eu bod yn annigonol gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac felly dylech gymryd cyngor cyfreithiol os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y mater hwn.

**MANYLION CYSWLLT**

Anfonwch eich ymholiadau cyn ymgeisio at:

E-bost: planning@newport.gov.uk
Llythyr: Rheoli Datblygu, Adfywio a Datblygu Economaidd
Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR

Ar gyfer unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost neu ffoniwch (01633) 656656.

**FFÏOEDD AM WASANAETHAU CYN YMGEISIO YN ÔL DISGRESIWN Y CYNGOR**
**Atodiad 1**

Mae'r ffïoedd a nodir yn yr amserlen codi tâl yn cynnwys TAW oni nodir yn wahanol. Ym mhob achos, mae penderfynu ar y ffi sy'n daladwy am gyngor cyn ymgeisio yn ôl disgresiwn y Rheolwr Tîm Ardal.

| Math o ddatblygiad | Cyfarfod gyda chamau dilynol ysgrifenedig | Cyfarfod ychwanegol gyda chamau dilynol ysgrifenedig |
|---|---|---|
| **Datblygiad mawr sylweddol**<br><br>(25 uned breswyl neu fwy, gan gynnwys trosi/2000 metr sgwâr + arwynebedd llawr masnachol, gan gynnwys newidiadau defnydd/datblygiad arall ar safleoedd o fwy na 1 hectar / datblygiad sy'n gofyn am AEA / ceisiadau cymhleth neu raddfa fawr eraill sydd angen mewnbwn sylweddol gan swyddogion – e.e. ffermydd gwynt - a allai fel arall fod yn ddatblygiad bach) | £1,465 | £660 |
| **Datblygiad mawr**<br><br>(10-24 uned breswyl gan gynnwys trosi neu gydag ardal safle o 0.5-1 hectar neu drosi i Dŷ Amlfeddiannaeth sy'n cynnwys mwy na 15 ystafell gwely / 1000-1999 metr sgwâr o ofod llawr masnachol gan gynnwys newidiadau defnydd / datblygiad defnydd cymysg gyda gofod llawr cyfun o 1000-1999 metr sgwâr / datblygiad arall ar safle o 0.5-0.99 hectar) Datblygu mwynau a gwastraff | £865 | £360 |
| **Datblygiad bach**<br><br>[1-9 uned breswyl gan gynnwys trosiadau i fwy nag un annedd neu drosi i Dŷ Amlfeddiannaeth; llai na 1000 metr sgwâr o arwynebedd llawr masnachol gan gynnwys newid defnydd/datblygiad defnydd cymysg gydag arwynebedd llawr cyfunol o lai na 1000 metr sgwâr / datblygiad arall ar safle o lai na 0.5 hectar)/ datblygiadau amaethyddol (heblaw am pan fyddant wedi'u heithrio (gweler isod)/ ymholiadau annomestig sy'n gofyn am gadarnhad o ddatblygiad a ganiateir heblaw am pan fydd wedi'i eithrio (gweler isod)] / gwaith sy'n gofyn am gyngor treftadaeth yn unig ar Adeilad Rhestredig neu Ganiatâd Ardal Gadwraeth. | £400 | £180 |
| | | |
| **Hysbysebion**<br>*ar gyfer cyngor ysgrifenedig yn unig | £60* | |
| **Ymholiadau gwarchod plant**<br>*****ar gyfer cyngor ysgrifenedig yn unig ar ôl cwblhau a chyflwyno holiadur ar gyfer eiddo gwarchod plant (pdf) | £40* | |

* *Mae'r holl ymholiadau datblygiad a ganiateir yn cael eu hateb orau mewn modd ffurfiol trwy gyflwyno cais Tystysgrif Cyfreithlondeb. Os gofynnir, darperir cyngor ac arweiniad anffurfiol lle y bo hynny'n briodol ac ni fyddant yn rhagfarnu unrhyw benderfyniad ffurfiol a wneir yn ddiweddarach gan yr awdurdod mewn cysylltiad ag unrhyw gyflwyniad ffurfiol sy'n ymwneud â'r mater*.

| Sut i Dalu | |
|---|---|
| **Cerdyn** | Mae cardiau'n cael eu derbyn yng Ngorsaf Wybodaeth y Cyngor ac mae modd gwneud taliad â cherdyn dros y ffôn hefyd drwy gysylltu â chymorth cynllunio ar (01633) 656656 (taliadau ffôn rhwng 10am-12am a 2pm-4pm yn unig). |
| **Arian Parod** | Mae arian parod yn cael ei dderbyn yng Ngorsaf Wybodaeth y Cyngor (peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post). |
| **Siec** | **Yn daladwy i** Gyngor Dinas Casnewydd, wedi'i bostio neu ei gymryd i'r Orsaf Wybodaeth. |

Bydd y ffïoedd uchod hefyd yn berthnasol i unrhyw gyngor cyn ymgeisio a geisir mewn cysylltiad ag unrhyw gyngor cyn ymgeisio y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano (oni bai y penderfynir gan reoliadau codi tâl eraill), adrannau llywodraeth ganolog, cymdeithasau tai, adrannau mewnol y Cyngor, cwmnïau cyfleustodau ac ymgymerwyr statudol.

**Codir tâl cyfwerth ar ymholiadau sy'n ymwneud ag ail-drafod Cytundebau Cyfreithiol adran 106 sy'n ymwneud ag unrhyw fath o ddatblygiad i'r tâl cyn ymgeisio cymwys am y math o ddatblygiad y mae'r caniatâd perthnasol yn ymwneud ag ef.**

Er enghraifft, codir tâl o £865 ar ail-drafod adran 106 ar ddatblygiad 'mawr'. Codir tâl ar drafodaethau ar amrywiadau o amodau i ymestyn oes caniatâd cynllunio yn yr un modd. Bydd ffïoedd a godir mewn perthynas ag ymholiadau cyngor amrywiaeth arall o amodau yn ôl disgresiwn y Rheolwr Tîm Ardal ac yn gymesur ag adnoddau'r Cyngor sydd eu hangen i gwblhau ymateb.

**Sylwer:** Os mai dim ond mewn cysylltiad â'ch ymholiad y mae angen cyngor ysgrifenedig arnoch a bod eich prosiect wedi'i gynnwys yn y mathau o ddatblygiadau a restrir gan ein Gwasanaeth Cyn Ymgeisio Statudol, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen briodol (PDF) a chyfeirio at y nodiadau canllaw ar wahân sy'n ymwneud â'r gwasanaeth hwn.

## DATBLYGIADAU ERAILL (EITHRIADAU)

Yn gyffredinol, ni chodir tâl am y canlynol:

- Cyngor sy'n ymwneud â gwaith ar goed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed neu oherwydd lleoliad mewn ardal gadwraeth [cyfeiriwch at nodyn enghreifftiol Treftadaeth uchod ynghylch graddau'r eithriad]
- Datblygiad ar raddfa fach ar gyfer cyfleuster cymunedol nid er elw neu gynllun ar raddfa fach gan elusen gofrestredig neu sefydliad sector gwirfoddol
- Cadarnhad o ddatblygiad a ganiateir yn unol â hysbysiadau telegyfathrebu yn unol â Rhan 24 o Gynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd)
- Ymholiadau yn ymwneud â datrys achosion gorfodi (cyn cyflwyno Hysbysiad Gorfodi; Hysbysiad Torri Amod neu debyg)
- Ymholiadau yn ymwneud ag eiddo domestig ac a yw hawliau datblygiad a ganiateir wedi'u dileu ai peidio (nid yw hyn yn cynnwys cyngor ynghylch a yw datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad a ganiateir ai peidio – gweler y tâl perthnasol uchod)
- Ymholiadau sy'n gofyn am eglurhad ynghylch gofynion i ryddhau amodau unrhyw ganiatâd cynllunio (nid yw hyn yn cynnwys cyngor ar ryddhau materion a gadwyd yn ôl sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio amlinellol; cyngor ar amrywio amodau neu gytundebau cyfreithiol adran 106; cadarnhad bod amodau wedi'u rhyddhau – gweler y taliadau uchod);
- Yr unig eithriad i'r uchod fydd os cynhelir cyfarfod, yn ôl disgresiwn y Rheolwyr Tîm Ardal neu os oes angen ymweld â'r safle ar gyfer datblygiad arfaethedig neu ymholiad. Mewn achosion o'r fath, codir tâl ar gyfradd briodol a rhesymol sy'n gymesur ag adnoddau'r gwasanaeth dan sylw. Fe'ch hysbysir o'r tâl, a bydd gofyn i chi ei dalu, cyn y cynhelir unrhyw gyfarfod neu ymweliad safle.

**Copïau o wybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a cheisiadau i**

**ymchwilio i hanes y safle neu ryddhau amodau cynllunio**

Mae hysbysiadau penderfynu cynllunio o 1989 hyd heddiw ar gael i'w gweld ar-lein yn https://www.newport.gov.uk/cy/Planning-Housing/Planning/Planning-permission/Planning-applications. Gallwch hefyd chwilio am gyfeiriad at bob cais cynllunio (yn ôl i 1989) drwy gronfa ddata mapio'r Cyngor yn https://fy.newport.gov.uk/ a dewis y troshaen 'cynllunio' o'r dewis categori.

Os byddwch am i'r adran rheoli datblygu ddarparu hanes safle i chi, manylion amodau, eu rhyddhau ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall mewn cysylltiad â gwerthu, prynu neu brydlesu adeilad neu ddarn o dir, bydd ffi safonol o £100.00 yr awr neu ran ohono yn berthnasol i unrhyw geisiadau, gydag isafswm tâl o £100 ym mhob achos.

Caiff hyn ei gyfrifo ar sail 20 munud o amser swyddog fesul amod a brofir. Er enghraifft, os ydych am i ni gadarnhau cyflawni amodau ar ganiatâd sy'n cynnwys 10 amod (200 munud o amser swyddog), bydd hyn yn costio £400.

Mae hwn yn wasanaeth anstatudol a ddarperir gan yr awdurdod. Os ydych am i'r awdurdod wirio amodau penodol caniatâd cynllunio yn hytrach na'r cyfan, rhaid i'ch ymholiad wneud hyn yn glir neu bydd y ffi am ein gwasanaeth yn seiliedig ar nifer yr amodau ar y caniatâd (e.e. rydych chi am i ni wirio tri amod ar ganiatâd gyda chyfanswm o 10 amod felly byddai'r ffi yn seiliedig ar awr o amser swyddogion a byddai'r ffi yn £100).

Dylid anfon ceisiadau am y gwasanaeth hwn at planning@newport.gov.uk a bydd angen talu ymlaen llaw. Bydd yr awdurdod yn anelu at ddarparu ymateb i bob cais o'r fath o fewn 21 diwrnod i'w dderbyn (i gynnwys y ffi berthnasol). Fe'ch cynghorir bod y ffi a godir ar gyfer asesiad desg. Ni fydd ymweliadau safle yn cael eu cynnal fel arfer safonol. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd/datblygwr yw sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau unrhyw ganiatâd cynllunio.

Ar gais, efallai y bydd gwybodaeth gyfyngedig o ffeiliau archif sy'n dyddio rhwng 1998-2008 ar gael i'w gweld ar-lein. Bydd hyn yn amodol ar dâl yn seiliedig ar amser disgwyliedig swyddog i lanlwytho gwybodaeth o'r fath a chewch wybod am y gost hon ymlaen llaw. Sylwer, cyn 1998, dim ond hysbysiadau penderfyniadau sydd ar gael.